## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Swyddi gwag

| Manylion y swydd wag | |
|---|---|
| Sefydliad | **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** |
| Rôl | **Adolygydd Cymheiriaid Meddygon Teulu** |
| Cyflog | **£440 y dydd, a threuliau teithio a chynhaliaeth** |
| Hyd | **Tair blynedd gyda'r posibilrwydd o estyniad** |

### Diben y swydd

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol ac yn arolygu Gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella.

Fel Adolygydd Cymheiriaid Meddygon Teulu, byddwch yn cydweithio ag AGIC i gynnal arolygiadau mewn practisau meddygon teulu a gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu ledled Cymru.

Bydd AGIC yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar ymarfer a phrofiad cyfredol. Bydd eich sgiliau a'ch cymorth yn ein helpu i nodi arferion da ac i atgyfnerthu a rhannu unrhyw feysydd o bryder fel y gall meddygon teulu a byrddau iechyd roi tawelwch meddwl i'r cyhoedd a gwella gwasanaethau i gleifion.

### Tasgau allweddol

- Gweithio gydag AGIC gyda chymorth a chyfarwyddyd gan staff AGIC
- Teithio ledled Cymru i arolygu'r amgylchedd ffisegol, polisïau/gweithdrefnau, cyfarpar, ardystiadau, cofnodion cleifion a chofnodion eraill mewn gwasanaethau gofal iechyd
- Cyfweld â meddygon teulu, staff a chleifion
- Rheoli amser yn effeithiol er mwyn sicrhau eich bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer yr ymweliad arolygu a darllen gwybodaeth cyn yr arolygiad ac adroddiadau arolygu blaenorol
- Ymateb i unrhyw faterion sy'n peri pryder fel y bo'n briodol drwy drafod ag Arolygydd Gofal Iechyd AGIC
- Gwneud arsylwadau ac argymhellion yn seiliedig ar eich barn glinigol a phroffesiynol eich hun, gan ystyried y rhesymeg glinigol, buddiannau cleifion, a'r broses o roi unrhyw Reoliadau a Safonau perthnasol ar waith
- Gwneud cofnod o'ch canfyddiadau yn ystod yr ymweliad gan ddefnyddio'r adnoddau arolygu a chyfrannu at y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd
- Adolygu adroddiadau arolygu a gwneud sylwadau arnynt er mwyn sicrhau cywirdeb cyn eu cyhoeddi
- Cynnal ymweliadau arolygu dilynol byrrach â phwyslais penodol (yn ôl yr angen)
- Dangos parch a dealltwriaeth o amrywiaeth a dinasyddiaeth staff/defnyddwyr gwasanaethau
- Mynd i unrhyw weithgareddau sefydlu a hyfforddiant y bydd AGIC o'r farn eu bod yn angenrheidiol
- Gweithredu fel llysgennad ar ran AGIC drwy hyrwyddo gwaith yr Arolygiaeth a rhannu arferion gorau
- Cymryd rhan yn y broses o greu a diwygio dogfennaeth methodoleg arolygu (yn ôl y gofyn)

## Meini Prawf sy'n Benodol i'r Swydd

Meini prawf hanfodol

- Wedi cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ar y Gofrestr Meddygon Teulu â thrwydded i ymarfer
- Profiad ymarferol cyfredol o ymarfer cyffredinol clinigol
- O leiaf bum mlynedd o brofiad o ymarfer parhaus
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Gwybodaeth am y Pecyn Cymorth Hunanasesu Arferion Llywodraethu Clinigol (CGPSAT)
- Profiad a dealltwriaeth dda o lywodraethu clinigol gan gynnwys gweithredu a monitro safonau clinigol a phroffesiynol yn effeithiol
- Profiad o reoli risg yn effeithiol gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac ymdrin â chwynion yn effeithiol
- Sgiliau drafftio adroddiadau o ansawdd uchel
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a gwrando rhagorol
- Ymagwedd broffesiynol iawn sy’n canolbwyntio ar y claf, ynghyd â gwerthoedd cryf o ran gofal diogel, tosturiol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Sgiliau arsylwi, asesu a dadansoddi rhagorol
- Y gallu i weithio'n effeithiol ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm
- Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o systemau a dyfeisiau TG yn effeithiol ac yn annibynnol
- Dylid darparu tystiolaeth gyfredol ar ôl cwblhau a chydymffurfio â phob cwrs gorfodol sy'n rhan o'ch cofrestriad â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, gan gynnwys, ymhlith eraill, Atal a Rheoli Heintiau, Llywodraethu Gwybodaeth, Diogelu (ar y lefel ofynnol ar gyfer eich swydd bresennol), Codi a Chario, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Meini Prawf dymunol

- Profiad o ymarfer cyffredinol mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys dealltwriaeth o gytundebau contractiol a'r cydberthnasau sydd ar waith rhwng practisau meddygon teulu a'u bwrdd iechyd perthnasol
- Profiad blaenorol o archwilio ac arolygu
- Dealltwriaeth o amcanion a blaenoriaethau AGIC
- Gwybodaeth am Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023

## Cyfleoedd datblygu

Bydd Adolygwyr Cymheiriaid yn meithrin profiad o arolygu ac adolygu a byddant yn gwella eu sgiliau dadansoddi, drafftio, gweithio mewn tîm a chyfathrebu.

Mae gweithio gydag AGIC yn rhoi cyfle i Adolygwyr Cymheiriaid drosglwyddo arferion da i'w meysydd gwaith eu hunain.

## Y Gymraeg

Mae AGIC yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu ei gweithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu gallu i weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bydd Adolygwyr Cymheiriaid yn destun gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Gwybodaeth Ychwanegol

Patrwm Gwaith

Bydd Adolygwyr Cymheiriaid yn cael cytundeb fframwaith i ddarparu gwasanaethau ar sail hyblyg. O dan y trefniant hwn, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar AGIC i gynnig aseiniadau ac nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Adolygwyr Cymheiriaid i dderbyn aseiniadau. Bydd AGIC yn cynnig aseiniadau pan fydd angen gwasanaethau (hyd at 1.5 diwrnod ar gyfer pob arolygiad).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Cymorth Arolygiadau AGIC yn AGIC.arolygu@llyw.cymru neu ffoniwch 0300 062 8163.

## Sut i wneud cais

Cwblhewch y Ffurflen Gais sydd ar gael ar y wefan a'i chyflwyno drwy e-bost i AGIC.arolygu@llyw.cymru.

Os oes angen y ffurflen gais arnoch mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni:


✉: AGIC.arolygu@llyw.cymru
☎: 0300 062 8163